| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 1. Datblygu Cwestiynau (CA2) |
| Disgrifiad: | Cyflwyniad i destun, darllen testun gyda sgiliau marcio testun a holi |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth**<br>*Strategaethau darllen:<br>Bl3:<br>• darllen ar goedd gan ddefnyddio atalnodi i helpu'r mynegiant.<br>• cip ddarllen (sgimio) i gael trosolwg o destun.<br>Bl4:<br>• darllen testunau, gan gynnwys testunau heb fawr o gliwiau gweledol, yn annibynnol, gan ganolbwyntio.<br>• defnyddio dealltwriaeth o gystrawen y frawddeg ac atalnodi i ddeall ystyr.<br>• cip ddarllen (sgimio) i gael prif neges testun neu'r prif syniad mewn pennod.<br>Bl5:<br>• darllen testunau estynedig yn annibynnol am gyfnodau cyson.<br>• adnabod sut mae atalnodi'n perthyn i gystrawen brawddeg a sut mae ystyr yn cael ei lunio mewn brawddegau cymhleth.<br>• defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen (sgimio).<br>Bl6:<br>• darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau cyson.<br>• deall sut gall atalnodi amrywio gan effeithio ar gystrawen ac ystyr y frawddeg.<br>• defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth.<br><br>**Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd**<br>*Darllen a deall<br>Bl3:<br>• nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun.<br>• dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant.<br>Bl4:<br>• nodi'n gywir y prif syniadau a'i wybodaeth atebol mewn testunau.<br>• dod i gasgliad ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng gwybodaeth.<br>Bl5:<br>• dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau,<br>• dehongli ystyr nad yw wedi'i ddatgan yn bendant.<br>Bl6:<br>• dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a manylion arwyddocaol mewn testunau gwahanol ar yr un pwnc<br>• dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant. |

| | |
|---|---|
| Testun Dylan Thomas | A Visit to Grandpa's.<br>Darn o ddechrau tudalen 33 (*...into the fields on Llanstephan Road.)* |
| Offer angenrheidiol: | • Copïau o'r testun<br>• Templed Llaw Cwestiynau *Atodiad 1*<br>• Sgwâr Casgliadau (Gweithgaredd Estyn) *Atodiad 2*<br>• Gwybodaeth gefndir am y testun. *Atodiad 3* |
| Trefn a awgrymir: | • Yr athro'n cyflwyno cefndir y testun *Atodiad 3*<br>• Rhannu'r gwaith o ddarllen y testun<br>• Mewn parau/grwpiau bychain, y plant yn defnyddio'r 'Llaw Gwestiynau' i gynhyrchu cwestiynau am y testun. Anogwch gwestiynau agored.<br>• Trafodwch y cwestiynau mewn grŵp/dosbarth mwy. Gan ddefnyddio lliw gwahanol, gall y plant nodi unrhyw syniadau sy'n cael eu mynegi i ateb rhai o'r cwestiynau. |
| Gweithgareddau estyn: | Lluniwch gwestiynau ac atebion posib ar 'Sgwâr Casgliadau'. Gellir gwneud hyn fel grŵp neu ddosbarth.<br><br>Defnyddio'r cyfryngau digidol: Defnyddio aps *Popplet* neu *Simple mind+* i ddangos y cwestiynau. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Gwahaniaethu drwy gymhlethdod y cwestiynau a gynhyrchir neu hyd y darn a ddefnyddir. Efallai y gall Blynyddoedd 3 a 4 ddarllen hyd at t.33 yn unig (*I thanked him and wished him good night*.) |